

## Cynlluniau Metro De Cymru

### Radur a Phentre-poeth

Mae Metro De Cymru yn rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus integredig a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rydyn ni'n buddsoddi tri chwarter biliwn o bunnoedd i uwchraddio'r rheilffyrdd yn y rhanbarth dros y blynyddoedd nesaf er mwyn iddyn nhw fod yn barod ar gyfer y trenau-tram Metro newydd, cyflymach a mwy rheolaidd.

Bydd y Metro yn ei gwneud hi'n haws, yn gyflymach ac yn fwy hwylus i bob un ohonom yn y dyfodol, os ydych chi'n teithio ar drên, ar fws, ar feic neu ar droed. Bydd hefyd yn creu lluo o gyfleoedd swyddi, busnes, addysg a chyfleoedd eraill i bobl ac i fusnesau De Cymru.

Mae angen rhaglen adeiladu, peirianeg a seilwaith sylweddol dros y blynyddoedd nesaf i adeiladu'r Metro a diolchwn i chi am fod yn amyneddgar wrth i ni weithio arno. Er mwyn i'r holl waith hwn ddigwydd yn ddiogel ac yn effeithiol, bydd angen i ni osod mynediad addas i'r rheilffordd a chreu compowndiau safle dros dro wrth ei hymyl. Rydyn ni'n bwriadu creu tua ugain o'r mynedfeydd a'r compowndiau hyn ar draws y rheilffordd, gan gynnwys yn y caeau wrth ymyl croesfan reilffordd Ffordd Fferm Gelynis.

Byddwn ni hefyd yn gwneud gwaith i ddisodli'r groesfan reilffordd.

Yn ein gohebiaeth flaenorol, fe roddom ni wybodaeth am y gwaith arfaethedig yn Nhreforgan a gofyn i chi ddweud wrthym am yr eitemau roeddech chi am gael rhagor o wybodaeth amdanynt. Rydyn ni wedi cymryd amser i ystyried yr adborth hwn a'ch ymholiadau yn ofalus. Gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn yn cynnig atebion defnyddiol.

## Your South Wales Metro

### A response to your feedback

The South Wales Metro is an integrated public transport network that will make it easier for people to travel across the Cardiff Capital Region. We're investing three quarters of a billion pounds to upgrade the railway lines in the region over the next few years so that they are ready for the new, faster, more frequent Metro tram-trains.

Metro will make travelling easier, quicker, and more convenient (whether you're travelling by train, bus, bike or on foot) for us all in the future. It will also open up a range of job, business, education and other opportunities for the people and businesses of South Wales.

There is a substantial construction, engineering and infrastructure programme needed over the coming years to build Metro and we thank you for bearing with us as we work on it. To allow for all this work to happen safely and effectively, we will need to set up suitable access to the railway and create temporary site compounds beside it. We plan to create approximately twenty of these access points and compounds across the railway, including at the fields beside Gelynis Farm Road level crossing.

We will also be working to replace the level crossing.

In our previous correspondence, we provided information on the proposed works in Morganstown and asked you to tell us the items that you wanted more information on. We have taken time to carefully consider this feedback and your queries, we hope this newsletter provides a helpful response.

## Gofynnoch chi am fanylion am y ddau gompownd

Mae compowndiau'n cynnig gofod dros dro ac yn caniatáu i'n pobl weithio'n ddiogel wrth ymyl y rheilffordd, i storio a chludo deunyddiau i fyny ac i lawr y trac, a darparu mynediad i wneud y gwaith adeiladu a pheirianeg angenrheidiol.

Bydd yr offer a'r cyfleusterau lles ar ein compowndiau'n cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bydd compownd Fferm Gelynys (a ddangosir yn y map isod) yn darparu swyddfa dros dro, ffreutur, ystafelloedd sychu a thoiledau i staff. Rydyn ni'n bwriadu dechrau ar y gwaith o osod y compownd yng Ngwanwyn 2021, a bydd yn para rhwng 8 a 12 wythnos. Bydd y compownd yn aros yn ei le tan ddiwedd prosiect y Metro yn 2023.

### Esboniad pellach ar y groesfan

Bydd gwasanaethau Metro amlach yn arwain at reilffordd llawer prysurach, gyda dwywaith gymaint o drenau'n rhedeg drwy'r ardal hon (un bob 4/5 munud).

O ganlyniad i'r newid hwn, rydyn ni'n credu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r perygl ar y groesfan yw cau'r groesfan bresennol yn Fferm Gelynys a gosod croesfan newydd yn ei lle a fydd yn mynd dros y rheilffordd.

Er nad oes cytundeb ar ddyluniad y groesfan newydd hon hyd yma, rydyn ni'n rhagweld y bydd yn cynnwys rhyw fath o bont ychydig i'r de o'r groesfan bresennol, gan fod y gyfraith yn mynnu ein bod yn darparu dull mynediad addas a diogel. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gweithio gyda pherchnogion tir a rhanddeiliaid lleol i lunio ein cynlluniau ar gyfer y groesfan newydd a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned.

Rydyn ni'n dylunio cynllun ffordd y bont i fod yn llai addas a diogel ar gyfer mynediad i gerbydau nwyddau trwm, ond eto'n addas i gerbydau, cerddwyr, beicwyr a marchogwyr ceffylau ei defnyddio.

### Ein hymateb i lygredd sŵn a golau

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ystyried y mesur lleihau sŵn mwyaf priodol ar gyfer yr ardal er mwyn lleihau'r sŵn a gynhyrchir gan staff a generaduron.

## You requested detail on compounds

Compounds provide temporary, adequate space and allow our people to work safely beside the railway, store and transport materials up and down the track and provide access to undertake the required construction and engineering work.

Equipment and welfare facilities on our compounds will comply with Health & Safety Executive guidelines. Gelynys Farm compound (shown in the map below) will provide a temporary office, canteen, drying rooms and toilets for staff. We plan to commence work to install the compound in Spring 2021, lasting approximately 8 to 12 weeks. The compound will remain in place until the end of the Metro project in 2023.

### Further clarification on the crossing

More frequent Metro services will result in a much busier railway line, with double the number of trains running through this area (one every 4/5 minutes).

As a result of this change, we believe the most effective way of reducing level crossing risk is to close the existing crossing at Gelynys Farm and replace it with a new crossing that goes over the railway.

Whilst the design of this replacement has not yet been agreed, we anticipate it will involve some style of bridge slightly south of the existing crossing, as we are required by law to provide a suitable and safe method of access. We are currently working with landowners and local stakeholders to shape our plans for this replacement and will keep the community updated.

We will be using our dedicated access haul road to site only. Other nearby routes have been tested and have been deemed as unsuitable.

### Our response to noise and light from our works

We are currently looking at the most appropriate noise reduction measure for the area to minimise noise produced by staff and generators. Our site

Mae ein timau safle yn awyddus i fod yn gymdlogion da, a byddant yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw bryderon am sŵn neu olau wrth i ni eu derbyn.

Byddwn ni'n defnyddio golau ar lwybrau i sicrhau diogelwch ein staff. Byddwn ni'n ddefnyddio technoleg LED os oes modd oherwydd ei fod yn taflu llai o olau. Rydyn ni wedi cydymffurfio â chanllawiau Cyngor Dinas Caerdydd (CCC) a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar ddarlleniadau LUX.

Mae'n bwysig nodi bod gennym lawer o waith ar y gweill ar y rheilffyrdd i'w trydaneiddio, yn barod ar gyfer y trenau tram-newydd, a bydd llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn y nos.

Gyda'n partneriaid, byddwn yn:

- Trydaneiddio a moderneiddio oddeutu 170km o draciau – gan osod offer llinell uwchben yn bennaf er mwyn pweru ein trenau tram-newydd
- Uwchraddio'r holl orsafoedd a signalau.
- Adeiladu o leiaf pum gorsaf newydd yng Nghaerdydd a'r cyffiniau
- Addasu pontydd, croesfannau rheilffordd ac offer signalau
- Torri llystyfiant wedi gordyfu wrth ymyl y coridor rheilffordd presennol

Bydd y gwaith yn parhau ac yn digwydd yn ysbeidiol, ac yn parhau hyd nes y byddwn yn cwblhau'r cam hwn o waith ar y Metro (tua 2023).

## Gwnaethoch chi ofyn am ragor o fanylion am berchnogaeth tir

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) wrthi'n caffael Fferm Gelynis a'r tir cysylltiedig. Bydd hefyd angen i TrC gaffael tir arall yn yr ardal, dros dro ac yn barhaol, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r prosiect. Bydd y tir yn eiddo i TrC ar ôl iddo gael ei brynu.

Ni all TrC gadarnhau ar hyn o bryd i bwy y bydd yn gwerthu'r tir a'r eiddo yn y dyfodol pan na fydd ei angen bellach ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai'r unig reswm dros gaffael y tir yw hwyluso'r gwaith o gyflawni'r cynllun i ddarparu croesfan ddiogel dros y coridor rheilffordd, ac nid oes unrhyw gymhellant arall.

teams are keen to be a good neighbour and will try to address any concerns about noise or light as we receive them.

Light will be used on pathways to ensure the safety of our staff. We will emit less light where possible through the use of LED technology. We have complied with Cardiff City Council (CCC) and the Health and Safety Executive guidance on LUX readings.

It's important to note that we have a lot of work planned on the railway lines to electrify them ready for the new tram-trains, and much of this work will take place at night.

Together with our partners, we'll be:

- Electrifying and modernising around 170 km of track – mostly installing overhead line equipment (OLE) to power our new tram-trains
- Upgrading all our stations and signalling
- Building at least five new stations in and around Cardiff
- Modifying bridges, level crossings and signalling equipment
- Cutting back overgrown vegetation alongside the existing railway corridor

Work will be ongoing and intermittent between now and the completion of this phase of Metro work (around 2023).

## You wanted more detail on land ownership

Transport for Wales (TfW) is in the process of acquiring Gelynis Farm and the associated land. We will also need to acquire other land within the area, both on a temporary and permanent basis to facilitate delivery of the project. The land will belong to TfW once acquired.

We cannot confirm at this stage who the land and property surplus to project requirements will be sold to in the future however it is important to note that we are only acquiring land to facilitate delivery of the scheme to afford safe passage over the railway corridor and with no other motivation.

## Fe ofynnoch chi am 'shifft arferol'

Byddai 6-8 cerbyd a rhwng 60 ac 80 aelod staff yn mynd i'r compownd yn ystod oriau gwaith arferol. Bydd staff yn cyrraedd y safle ar fan y criw (os bydd canllawiau COVID yn caniatáu) ond byddant yn parcio pob cerbyd yn y compownd. Gallwn hefyd roi sicrwydd i drigolion nad yw'n cael ei ddefnyddio fel compownd 'trawslwytho'.

Bydd staff yn cael mynediad at gompownd Gelynys yn ystod y dydd yn bennaf, a bydd y compownd Trawsnewid yn cael ei ddefnyddio ddydd a nos, i gadw offer a deunyddiau, fel tiwbiau dur.

## Eich pryderon ynghylch yr amgylchedd

Byddwn ni'n gweithio i leihau'r effaith ar yr amgylchedd lleol ac rydyn ni wedi ymgymryd â'r prosesau cynllunio priodol, gan gynnwys arolygon ecolegol. Cynhaliwyd arolygon ecolegol i ganfod unrhyw rywogaethau a warchodir neu adar sy'n nythu yn yr ardal. Pan fyddwn yn canfod rhywogaethau, bydd dulliau gweithio priodol yn cael eu rhoi ar waith.

Rydyn ni hefyd yn cael trafodaethau â CADW i wella'r Domen wrth ymyl y fynedfa i'r lôn ac yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ein bod yn cyfyngu ar yr effaith amgylcheddol.

## Eich pryderon ynghylch Mynediad i Gerbydau Nwyddau Trwm

Rydyn ni'n cydnabod y gall fod pryderon ynghylch mynediad HGVs i'r compownd Trawsnewid ac rydym am eich sicrhau ein bod wedi ystyried pob llwybr arall posibl.

Byddai mynedfa i'r compownd drwy'r tir wrth ymyl Canolfan Arddio Pugh's. Felly, bydd yn osgoi'r rhan fwyaf o'r tai a'r mwynderau cyfagos, ac mae mynediad i gerbydau wedi'i gyfyngu i amseroedd addas yn dilyn trafodaethau â'r gymuned leol a gyda chytundeb CCC.

Bydd pob cerbyd nwyddau trwm i'r ddau gompownd yn cael eu hanfon i Ddepo Trefforest yn gyntaf a byddan yn cael eu cadw yno yn ystod

## You asked about a 'typical shift'

Typical hours of work would include 6-8 vehicles accessing the compound and between 60 and 80 staff. Staff will arrive on site in a crew van (COVID guidelines permitted) but all vehicles will park within the compound. We can also reassure residents that it's not being used as a 'transshipment' compound.

The Gelynys compound will be accessed by staff mostly during the day, with the Transformation compound accessed both day and night, holding equipment and materials, such as steel tubes.

## You raised concerns on the environment

We will work to minimise impact to the local environment and have undertaken the appropriate planning processes, including ecological surveys. Ecological surveys have been carried out to identify any protected species or nesting birds in the area. When species are identified, appropriate methods of working are put in place.

We're also in discussion with stakeholders to improve the Mound beside the lane access and working with Natural Resources Wales to ensure limited environmental impact.

## Your concerns regarding HGV Access

We recognise there may be concern regarding Heavy Goods Vehicles (HGV) access to the Transformation compound and want to assure you that we have considered all alternate routes.

Access to the compound would be via the land beside Pugh's Garden Centre, thereby avoiding most nearby housing and amenities, with vehicular access restricted to suitable times in discussion with the local community and agreed by CCC.

All HGVs for both compounds will be sent to Treforest Depot first and held there during 'Peak Times'. They will then be dispatched to the

adegau prysur. Yna byddant yn cael eu hanfon i'r compownd, pan fydd hynny'n briodol.

Gan mai dim ond 8-10 munud y mae'n cymryd i deithio rhwng yr ardaloedd, bydd ein mesurau rheoli cerddwyr ar waith yn llawn erbyn i'r Cerbydau Nwyddau Trwm gyrraedd. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cerbydau Nwyddau Trwm yn gallu cyrraedd yn ddirwystr, a byddwn hefyd yn gallu rheoli llif y cerbydau nwyddau trwm (o'n prosiect ni) sy'n pasio'r ardal.

Gan y bydd gennym system logisteg, byddwn yn gwybod rhif cofrestru pob cerbyd nwyddau trwm sy'n dod i'r ardal hon. Byddwn yn briffio ein holl gyflenwyr a gyrwyr ar yr ymddygiad disgwylidig ac yn rhoi cyfarwyddyd iddynt i ddilyn llwybrau penodol. Byddwn yn delio ag unrhyw achosion o fynd yn groes i'r naill gyfarwyddyd neu'r llall fel y bo'n briodol.

### Gofynnwch chi am eglurder ynglŷn â'r manteision i Dreforgan

Bydd y Metro yn helpu i gefnogi twf economaidd ar draws y rhanbarth drwy wella cysylltiadau ar draws De Cymru a thu hwnt. Bydd yn golygu teithiau cyflymach, amlach a gwell i deithwyr, ond bydd manteision hefyd i gymunedau a chymdogion sy'n byw ochr yn ochr ag ef.

Trenau trydan yw'r trenau tram-newydd sbon a fydd yn gwasanaethu'r Metro. Mae'r rhain yn dawelach ac yn cynhyrchu llawer llai o CO2 na'r trenau presennol. Maent hefyd yn dawelach i'r rheini sydd ar y trên a'r rheini sy'n byw'n agos at y rheilffordd. Bydd trafndiaeth gyhoeddus well a mwy dibynadwy hefyd yn golygu bod llai o bobl yn gorfod defnyddio eu ceir, gan leihau'r straen ar y ffyrdd prysur o amgylch Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol ar sut byddwn yn gadael compownd Treforgan gan ein bod ar fin datgomisiynu ein safle.

Datblygwyd ein cynlluniau ar gyfer y Metro i fod yn hyblyg a bydd modd eu hystyngi, ac rydyn ni'n ymwybodol o'r dyheadau i gael Gorsaf fechan yn y lleoliad hwn.

Nid yw hwn yn un o'n hymrwymadau ar hyn o bryd, ac nid ydym wedi cael arian i gyflawni'r

compound, when it is appropriate.

With only 8-10 min travel time between areas, we will have our pedestrian management fully activated ready for the HGV arriving. This will ensure a seamless arrival of any HGVs, while being able to manage the flow of the number of HGVs (from our project) passing the area.

As we will have a logistics system we will know the registration of each and every HGV coming into this area. All our suppliers and drivers will be briefed on expected behaviours and instructed to follow dedicated routes. We will deal with any incidents of breaching either of these as appropriate.

### You asked for clarity on the benefits to Morganstown

Metro will help support economic growth across the region by improving the connections across South Wales and beyond. It will mean faster, more frequent and better journeys for passengers, but there will also be benefits for communities and neighbours who live alongside it.

The brand new tram-trains that will serve Metro are electric and produce far less CO<sup>2</sup> than the outgoing trains. They are also quieter for both those onboard the train and those living close to the railway. Better, more reliable public transport will also mean that fewer people will have to use their cars, easing the strain on the congested roads around the Cardiff Capital Region.

We will continue to work with stakeholders and community groups on how we leave the Morganstown compound as we are due to decommission our site.

Our plans for the Metro have been developed to be flexible and extendable, and we're aware of aspirations for a Halt Station at this location. This is not one of our commitments at the present time or a project we are funded to deliver. We're continuing to work in partnership with the Welsh

prosiect. Rydyn ni'n parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ystyried opsiynau fel hyn i ehangu rhwydwaith y Metro yn y dyfodol.

## Ymholiadau am iawndal

Bydd TrC yn gweithio i darfu cyn lleied â phosibl ar gymunedau a busnesau lleol. Fodd bynnag, mae natur rhywfaint o'n gwaith yn golygu y bydd rhywfaint o darfu yn anorfod.

Mae gennym hawl ac mae dyletswydd arnom i gynnal ac adnewyddu ein hasedau a'n seilwaith ac, fel sefydliad sy'n cael arian cyhoeddus, ni allwn dalu iawndal, na thaliadau 'ewyllys da' gan fod ein gwaith wedi tarfu arnoch chi na gwneud gwelliannau i gartrefi.

Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i fod yn gymydog parchus yn ystod ein hamser yn y gymuned.

## Cais Cynllunio Pont Gelynis

Cyflwynwyd y cais cynllunio ar gyfer Pont Gelynnis i CCC ar 29 Ionawr 2021 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar eu gwefan ar 05 Chwefror 2021. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cais cynllunio drwy fynd i wefan CCC:

<https://planningonline.cardiff.gov.uk/online-applications/?lang=CY>

## Beth nesaf?

Ein nod yw cyfathrebu â chi'n amlach a gwella'r dulliau o wneud hynny. Felly, rydyn ni wedi datblygu tudalen ar ein gwefan, yn benodol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith sy'n cael ei wneud yn Radur a Threforgan:

<https://trc.cymru/cy/rhoir-wybodaeth-ddiweddaraf-i-chi>

Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor Cymuned Radur a Threforgan, Cymdeithas Radur a Threforgan a grŵp Trigolion Pentref Treforgan, ymysg rhanddeiliaid eraill, i sicrhau ein bod wedi darparu'r newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf. Ein nod yw mynychu'r cyfarfodydd canlynol yn y Gwanwyn er mwyn parhau i gyfathrebu â rhanddeiliaid a'r gymuned leol:

Government and local authorities to consider options such as this for expanding the Metro network in the future.

## Queries on compensation

TfW will be working to minimise disruption to communities and local businesses as much as possible, however, the nature of some of our work means that some disruption is unavoidable.

We have a right and a duty to maintain and renew our assets and infrastructure and, as a publicly funded organisation, we are not able to provide compensation, or 'gesture' payments owing to disruption caused by our work or make home improvements.

We will do our utmost to be a respectful neighbour during our time in the community.

## Gelynis bridge planning application

The planning application for Gelynis Bridge was submitted to CCC on 29 January 2021 and published on their website on 05 February 2021. You can find out more information on the planning application by visiting CCC website: <https://planningonline.cardiff.gov.uk/online-applications>

## What's next?

We aim to improve how frequently we communicate with you and the methods in doing so. Therefore, we've developed a page on our website, dedicated to updating you on works happening in Radyr and Morganstown: <https://trc.cymru/keeping-you-informed>

We will continue to work closely with RMCC, Radyr & Morganstown Association and Morganstown Village Residents group, among other stakeholders to ensure we've provided the latest news and updates. We aim to attend the following meetings in the Spring to continue our communication with both stakeholders and the local community:

- Cyngor Cymuned Radur a Threforgan
- Grŵp Trigolion Pentref Treforgan
- Clwb Pêl-droed Radyr Rangers

Rydyn ni wrthi'n cadarnhau dyddiadau priodol.

## Rhagor o wybodaeth

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i drafnidiaeth ledled De Cymru a thu hwnt. Byddwn yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynlluniau.

Mae ein tîm cysylltiadau cwsmeriaid wrth law i ateb eich cwestiynau. Ffoniwch **033 33 211 202** neu ewch i [www.trctrenau.cymru/cysylltu-ni](http://www.trctrenau.cymru/cysylltu-ni) i gael rhagor o wybodaeth neu os oes angen gwybodaeth arnoch yn y dyfodol mewn fformat ychwanegol.


- Radyr & Morganstown Community Council
- Morganstown Village Residents Group
- Radyr Rangers FC

We are in the process of confirming appropriate dates.

## More information

This is an exciting time for transport across South Wales and beyond. We will endeavour to keep you up to date with our plans.

Our customer relations team is on hand to answer your questions, please call **033 33 211 202** or visit [www.tfwrail.wales/contact-us](http://www.tfwrail.wales/contact-us) for more information, or if you require future information in an additional format.



Rhagor o wybodaeth am y Metro:  
[www.trc.cymru/cy/metroyndechnau](http://www.trc.cymru/cy/metroyndechnau)  
[www.trc.cymru/cy/cwestiynau-cyffredin](http://www.trc.cymru/cy/cwestiynau-cyffredin)

Find out more on the Metro  
[www.trc.cymru/metrobegins](http://www.trc.cymru/metrobegins)  
[www.trc.cymru/metro-faqs](http://www.trc.cymru/metro-faqs)

